YSTADEGAU GWLADOL

Cyfrifiad Prawf 2007

Cyfrifiad 2011:
Cwestiynau cyffredin am brawf Cyfrifiad 2007

Beth yw'r Cyfrifiad?

Cyfrif o'r holl bobl a chartrefi yn y DU yw'r Cyfrifiad a bydd yn cael ei gynnal bob 10 mlynedd fel arfer. Cynhaliwyd y Cyfrifiad diwethaf ar 29 Ebrill 2001 a bydd yr un nesaf yn digwydd yn 2011.

Pam cynnal Cyfrifiad?

Mae Cyfrifiad wedi'i gynnal yng Nghymru a Lloegr bob deng mlynedd ers 1801 a bydd y nesaf yn 2011. Arolwg o'r holl bobl a chartrefi yn y wlad yw Cyfrifiad. Mae'n darparu ystadegau pwysig o lefel genedlaethol i lefel leol i'w defnyddio gan lywodraeth ganolog a lleol a'r gymuned. Mae'r Cyfrifiad yn annibynnol ar unrhyw blaid wleidyddol.

Sut bydd y Cyfrifiad yn fy helpu?

Mae eich cyngor lleol yn defnyddio ystadegau'r Cyfrifiad i benderfynu faint o arian y bydd arno ei angen i dalu am wasanaethau yn eich cymuned leol. Mae'r rhain yn cynnwys y gwasanaethau pwysig y gallwch chi fod yn eu defnyddio, fel ysgolion, gwasanaethau iechyd, yr heddlu, gofalwyr, trafnidiaeth a chasglu sbwriel. Mae'r swm o arian sydd ganddynt i'w wario yn cael ei seilio ar nifer y bobl sy'n byw ym mhob ardal a'r math o bobl, a dyna pam mae hi'n bwysig i chi gymryd rhan yn 2011 a chael eich cyfrif.

Beth yw Prawf y Cyfrifiad?

Oherwydd bod y Cyfrifiad mor bwysig, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dechrau cynllunio a phrofi'r cwestiynau sawl blwyddyn ymlaen llaw. Mae Prawf y Cyfrifiad yn ein helpu i wirio ein gweithdrefnau a'r cwestiynau posibl i wneud yn si r ein bod yn casglu'r wybodaeth bwysicaf.

Ble bydd Prawf 2007 yn cael ei gynnal?

Caerfaddon a Gogledd-ddwyrain Gwlad yr Haf, Camden, Sir Gaerfyrddin, Lerpwl a Stoke on Trent.

Faint o gartrefi fydd yn cymryd rhan ym Mhrawf 2007?

Mae tua 100,000 o gartrefi yng Nghymru a Lloegr yn cael eu gwahodd i gymryd rhan - tua 91,000 yn Lloegr a 9,000 yng Nghymru.

Ar ba ddiwrnod y mae Prawf y Cyfrifiad?

13 Mai 2007

Sut gallaf i gael help?

Cysylltwch â Llinell Gymorth y Cyfrifiad dros y ffôn 0845 603 2011 neu ffôn testun 0845 604 2011 (i bobl â nam ar eu clyw). Bydd y llinell gymorth ar gael o 23 Ebrill hyd 25 Mehefin 2007.

A oes raid i mi lenwi holiadur Prawf 2007 a'i ddychwelyd?

Er bod llenwi holiadur Prawf 2007 yn wirfoddol, rydym yn dibynnu ar gydweithrediad y cyhoedd i'w wneud yn llwyddiant. Mae arnom angen i gymaint o bobl ag sy'n bosibl lenwi'r ffurflen fel ein bod yn medru profi'r gweithdrefnau a'r cwestiynau yr ydym yn gobeithio eu defnyddio yng Nghyfrifiad 2011. Mae'r Cyfrifiad yn golygu buddsoddiad sylweddol o arian cyhoeddus. Felly, gorau po fwyaf o ymateb a gawn i'r holiadur, er mwyn sicrhau bod y prawf mor effeithiol â phosibl o ran helpu i ddatblygu holiadur, gweithdrefnau a system ar gyfer Cyfrifiad 2011.

Sut gallaf i fod yn siŵr y bydd fy manylion yn aros yn gyfrinachol?

Bydd y wybodaeth bersonol y bydd person yn ei darparu wrth lenwi'r holiadur yn cael ei thrin fel gwybodaeth gyfrinachol. Mae'r wybodaeth o Brawf 2007 yn cael ei gwarchod yn yr un ffordd a chan yr un ddeddfwriaeth â gwybodaeth Cyfrifiad. Ni fydd unrhyw ganlyniadau o Brawf 2007 yn cael eu cyhoeddi, ac eithrio fel rhan o werthusiad y Prawf.

Nid wyf wedi derbyn holiadur. Beth ddylwn i ei wneud?

Dim ond i rai o'r bobl sy'n byw yng Nghaerfaddon a Gogledd Ddwyrain Gwlad yr Haf, Camden, Sir Gaerfyrddin, Lerpwl a Stoke-on-Trent y byddwn yn gofyn iddynt gymryd rhan ym Mhrawf y Cyfrifiad. Bydd holiaduron hefyd yn cael eu dosbarthu hyd at 6 Mai. Os yw'n 7 Mai neu ar ôl hynny a'ch bod yn byw yn ardal yr Awdurdodau Lleol sy'n cymryd rhan cysylltwch â Llinell Gymorth y Cyfrifiad ar 0845 603 2011 neu ffôn testun 0845 604 2011 (i bobl â nam ar eu clyw).

Pam rydw i wedi derbyn cerdyn atgoffa a minnau wedi dychwelyd holiadur y Cyfrifiad?

Mae'n ddrwg gennyf ein bod wedi eich poeni. Weithiau ni fydd y gwaith o nodi bod holiaduron wedi eu dychwelyd ar ein systemau wedi ei gwblhau pan fydd y rhestrau dilynol yn cael eu creu i'r cyfrifwyr. Mae gan Gyfrifwyr gyfrifoldeb i sicrhau bod yr holl holiaduron yn cael eu dychwelyd. Fe fyddwn yn gwneud ein gorau i beidio â'ch poeni eto.

Rwyf wedi colli / difrodi'r holiadur

Cysylltwch â Llinell Gymorth y Cyfrifiad ar 0845 603 2011 neu ffôn testun 0845 604 2011 (i bobl â nam ar eu clyw), a fydd yn trefnu i ffurflen arall gael ei hanfon atoch.

Rwyf wedi colli'r amlen ragdaledig.

Gallwn anfon amlen arall atoch trwy gysylltu â Llinell Gymorth y Cyfrifiad ar 0845 603 2011 (neu ffôn testun 0845 604 2011 – i bobl â nam ar eu clyw), neu gallwch roi'r holiadur mewn amlen, sy'n ddigon mawr i beidio â phlygu'r holiadur, a'i hanfon i'r cyfeiriad ar du blaen yr holiadur; 2007 Census Test, FREEPOST RRAS-GRGR-SGJJ, Office for National Statistics, Titchfield, Hants PO15 5RR. Ni fydd raid rhoi stamp.

Mae manylion fy nghyfeiriad yn anghywir ar yr holiadur. Beth ddylwn i ei wneud?

Ysgrifennwch eich cyfeiriad cywir yn y blwch ar du blaen yr holiadur, llenwch y ffurflen a'i phostio yn ôl yn yr amlen a ddarparwyd.

Beth fyddwch chi'n ei wneud â'm gwybodaeth?

Dim ond ar gyfer asesu a gwirio effeithiolrwydd y cwestiynau a'r gweithdrefnau y bydd data Prawf 2007 yn cael ei ddefnyddio. Defnyddir y canlyniadau a geir yn unig ar gyfer cynllunio a pharatoi ar gyfer Cyfrifiad 2011. Cyhoeddir adroddiad gwerthuso yn Ebrill 2008.

Pam nad oes modd llenwi'r holiadur ar lein?

Gan mai Prawf Cyfrifiad yw hwn, mae'r adnoddau'n gyfyngedig, yn arbennig o ystyried cymaint y byddai'n ei gostio i ddarparu dull o lenwi'r holiadur ar lein. Bwriedir sicrhau bod cyfleuster i lenwi'r holiadur ar lein ar gael ar gyfer Cyfrifiad 2011.

Pam nad oes modd cael cymorth trwy e-bost?

Gan mai Prawf Cyfrifiad yw hwn, mae'r adnoddau'n gyfyngedig. Bydd cyfleuster e-bost wedi ei strwythuro ar gael ar gyfer 2011 o'r wefan Cymorth Cyfrifiad.

Rwyf am ysgrifennu llythyr.

Gellir anfon llythyrau i:
Census Customer Services
Segensworth Road, Titchfield, Fareham, Hampshire, PO15 5RR

Peidiwch â rhoi unrhyw lythyrau neu nodiadau i mewn gyda'r holiadur. Ni fyddwn yn ymateb iddynt.